FFURFLEN APELIO

Ffurflen gais ar gyfer apêl yn erbyn penderfyniad canlyniad achos Disgyblu, Addasrwydd i Astudio neu Addasrwydd i Ymarfer

Dylid defnyddio'r ffurflen hon os dymunwch apelio yn erbyn penderfyniad canlyniad achos Disgyblu, Addasrwydd i Astudio neu Addasrwydd i Ymarfer.

Defnyddiwch y ffurflen hon hefyd os ydych chi'n fyfyriwr o bartner strwythurol a chydweithredol a phe hoffech chi apelio yn erbyn canlyniad achos sefydliadol yn y meysydd hyn.

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylech chi ddarllen yr adran apelio naill ai yn y Polisi Disgyblu Myfyrwyr (camymddwyn anacademaidd), y Polisi Addasrwydd i Astudio, neu'r Polisi Addasrwydd i Ymarfer. Cyn i chi gyflwyno apêl, sicrhewch fod y seiliau ar gyfer apelio wedi eu bodloni.

Fe'ch atgoffir y gallwch gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr unrhyw bryd am gyngor a chymorth ar unrhyw fater.

Dylai'r ffurflen hon gael ei theipio, neu ei llenwi mewn inc du, a'i hanfon i Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr), i'w derbyn ymhen 15 diwrnod gwaith clir fan bellaf i ddyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod am benderfyniad y panel.

Bydd Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr) yn cydnabod ei bod wedi derbyn yr apêl fel arfer ymhen 5 niwrnod gwaith clir. Os na chewch chi gydnabyddiaeth ymhen 5 diwrnod gweithio clir, dylech chi gysylltu â Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr) i sicrhau bod eich apêl wedi dod i law mewn gwirionedd.

Rhaid cyflwyno pob hysbysiad sy'n ymwneud â'r apêl yn ysgrifenedig a'i anfon drwy'r e-bost neu'r post at y canlynol:	
(ar gyfer yr e-bost) E-bost: secases@pcydds.ac.uk Pwnc: Apelio	**(ar gyfer y post)** Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiad Myfyrwyr) Campws Gaerfyrddin Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin SA31 3EP

Bydd y Brifysgol yn cydnabod derbyn eich cais ac yn darparu unrhyw ddiweddariadau, a'r canlyniad, drwy'r e-bost; felly mae'n bwysig eich bod yn darllen eich negeseuon e-bost Prifysgol a phersonol yn rheolaidd.

ADRAN A: Manylion y Myfyriwr

Enw'r Myfyriwr:			
Rhif Myfyriwr:			
Cyfeiriad Cyswllt:			
Rhif Ffôn Cyswllt:			
Cyfeiriad e-bost:			
Rhaglen Astudio:			
Lefel astudio:			
Patrwm astudio:	☐ Amser llawn	☐ Rhan-amser	☐ Dysgu o Bell
Y Gyfadran/Yr Ysgol/Y Ganolfan (fel y bo'n berthnasol):			
Partner Strwythurol (fel y bo'n berthnasol)			
Partner Cydweithredol (fel y bo'n berthnasol)			
Campws:			

ADRAN B: Manylion yr apêl

Beth oedd penderfyniad y Panel fel y'i nodwyd yn eich llythyr canlyniad. (bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)
Yn erbyn pa ran o'r penderfyniad yr hoffech chi apelio? (bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)
Nodwch ar ba sail rydych chi'n apelio (ticiwch y blwch/blychau perthnasol a chwblhewch adran berthnasol y ffurflen):
☐ Anghysondebau wrth weithredu'r weithdrefn, a natur y rheini yn ddigon i achosi amheuaeth resymol a fyddid wedi dod i'r un penderfyniad pe na baent wedi digwydd;
☐ Bodolaeth tystiolaeth berthnasol a rhesymau argyhoeddiadol pam na ddarparwyd y dystiolaeth hon yn gynharach yn y weithdrefn;

☐ Nid oedd canlyniad yr apêl yn rhesymol o ystyried amgylchiadau'r achos.

Adran 1
Amlinellwch natur yr anghysondebau wrth gynnal y weithdrefn a sut y gallai'r anghysondebau hyn, yn eich barn chi, fod wedi effeithio ar benderfyniad y panel.

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

Adran 2
Rhowch fanylion y dystiolaeth berthnasol ac esboniwch y rhesymau argyhoeddiadol pam na ddarparwyd y dystiolaeth hon yn gynharach yn y weithdrefn (efallai bydd angen i chi gefnogi'ch esboniad gyda thystiolaeth annibynnol).

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

Adran 3
Esboniwch pam yr ystyriwch nad yw'r canlyniad yn rhesymol o ystyried amgylchiadau'r achos (ni ystyrir anfodlonrwydd ar y canlyniad yn unig yn rheswm digonol dros apêl).

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

Tystiolaeth ategol: Rhestrwch a disgrifiwch y ddogfennaeth rydych wedi'i hatodi i gefnogi'ch datganiad. (Sylwer NA fydd y Brifysgol yn ceisio tystiolaeth ar eich rhan – eich cyfrifoldeb chi yw gwneud hyn).

(Peidiwch â nodi bod "xxx ar gael os oes angen" – os ydych yn rhestru tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r apêl hon yna mae'n ofynnol eich bod yn ei chyflwyno neu'n rhoi dyddiad erbyn pryd byddwch yn ei chyflwyno). (bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

SYLWER – FEL ARFER NI RODDIR YSTYRIAETH I APELIAU SY'N DOD I LAW DROS 15 DIWRNOD GWAITH AR ÔL HYSBYSIAD SWYDDOGOL AM Y PENDERFYNIAD. CAIFF SWYDDFA'R PRO IS-GANGHELLOR CYSYLLTIOL (PROFIADAU MYFYRWYR) WRTHOD UNRHYW APÊL SY'N ANGHYFLAWN, SY'N BRIN O DYSTIOLAETH NEU NAD YW'N CYFLWYNO ACHOS CLIR AR GYFER APËL.

Mae'r wybodaeth yr wyf wedi ei rhoi yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei datgelu i swyddogion perthnasol y Brifysgol sy'n gyfrifol am ystyried apeliadau academaidd. **Mae cyflwyno dogfennaeth ffug neu wybodaeth dwyllodrus yn fater difrifol a gellir ymdrin â hyn dan y Gweithdrefnau Disgyblu neu'r Gweithdrefnau Arfer Annheg. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd unrhyw ddogfen(nau) a gyflwynir gennych neu ddatganiadau a wnewch chi yn yr apêl hon.**	
Llofnod y Myfyriwr:	**Dyddiad:**
Ticiwch y blwch hwn pe hoffech chi i gopi o'ch cais am adolygiad gael ei anfon ymlaen at Undeb y Myfyrwyr.	
Sylwer: Gall Undeb y Myfyrwyr ddarparu cyngor a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod proses ystyried eich apêl.	